

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Mawrth
20fed 2019 am 7.30 o'r gloch.**

**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 20th March
2019 at 7.30pm**

1. Presennol/Present - Cyngorwyr Barbara Williams (Cadeirydd, *Chairperson*), Myrddin Roberts, Rhian Hughes, Hana Elin Baguley, Alun Roberts a Geraint Parry (Clerc/*Clerk*).

2. Ymddiheuriadau/Apologies - Cyng. Maldwyn Williams, Lewis Davies, Carwyn Jones

3. Datgan Ddidderdeb/Declaration of interest

Ni ddatganwyd unrhyw ddatganiad diddiordeb / *No declaration of interest declared*

4. Cofnodion/Minutes -

5. Materion yn codi o'r Cofnodion/Matters arising from the minutes

5.1 Trafodwyd y cais am hawddfrait yn Brookfield i gysylltu draen budr, tua 2 fetr o hyd. Pawb yn cytuno ar hawddfrait. Y Clerc i ymgynghori â'n cyfreithiwr / *Discussed the application for an easement at Brookfield to connect a foul drain, approximate length of 2 meters. All in agreement for an easement. Clerk to consult with our solicitor.*

5.2 Hawddfrait Frondeg - mae'r Clerc wedi gwirio'r gofrestr tir comin, nid oes gan berchnogion Frondeg unrhyw hawliau cyffredin. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i hawddfrait ar draws y tir comin. Clerc i ymgynghori a'r ymgeisydd er mwyn sefydlu a ydynt am symud ymlaen gyda hawddfrait / *Frondeg easement - Clerk has checked the common land register, there is no rights to common by the owners of Frondeg. Following discussion, it was agreed to grant easement across the common. Clerk to consult with the applicant in order to establish if they wish to obtain an easement.*

5.3 Ni chyflwynwyd unrhyw enwau i'r Cyngorwyr i'w hethol yn dilyn yr hysbyseb. Clerc wedi hysbysebu'r 3 sedd wag ar gyfer cyd-opsiwn / *No names were submitted for Councillors for election following the advertisement. Clerk has advertised the 3 vacant seats for co-option.*

5.4 Chalet - deallwn fod y Cyngor Sir yn paratoi rhybudd gorfodi. Mae'n ymddangos bod estyniad bellach wedi'i godi. Cyng. A Roberts i ymholi ymhellach / *It is understood that the County Council are preparing enforcement notice. It seems that an extension has now been erected. Clr. A Roberts to further inquire.*

5.5 Ysgol Biwmares - ar 7fed Mawrth cymeradwyodd Pwyllgor Gwaith y cynnig i ddod a'r ysgol i ben, adnewydd ac ymestyn Ysgol Llandegfan ac adnewyddu Ysgol Llangoed. Eglurodd Cyng. A Roberts y bydd cludiant ar gael i Ysgol Llangoed yn unig / *Beaumaris School - on the 7th March the Executive Committee approved the proposal to discontinue the school, refurbish and extend Llandegfan School and refurbish Llangoed School. Clr. A Roberts explained that transport will only be available for Llangoed School.*

5.6 Lôn Hafoty - eglurodd Cyng. A Roberts fod y tir ar ddwy ochr y ffordd yn uwch na'r lôn ger Pros Ceuron a bod diffyg arian gan Adran Briffyrdd ar hyn o bryd i wneud unrhyw waith. Derbyniwyd ateb gan Albert Owen a oedd yn cynnwys eglurhad gan yr Adran Briffyrdd, sef bod y ffordd hon yn cael ei hystyried yn ail flaenoriaeth ac yn cael ei thrin pan fydd amodau anffafriol yn parhau am hyd at 36 awr a bod biniau halen wedi eu darparu ar hyd y ffordd hon. / *Hafoty road - Clr. A Roberts explained that land on both sides of the road is higher than the road by Pros Ceuron, and that the Highways Department has insufficient funding at present to carry out any work. Received a reply from Albert Owen which included an explanation from the Highways Department, in that this road is classed as a second priority and gets treated when adverse conditions persist for up to 36 hours and that salt bins are provided along this road.*

5.7 Gwasanaethau Bws Lleol - mae'r Cyngor Sir wedi derbyn ymateb anfoddhaol gan Arriva i'w pryder am wasanaethau lleol / *Local Bus Services - the County Council have received an unsatisfactory response from Arriva to their concern about local services.*

5.8 Mynwentydd - derbyniwyd yn unfrydol y dyfynbris ar gyfer cynnal a chadw'r ar gyfer 2019/20. Clerc i gwblhau'r amodau i ymwneud a chlirio'r toriadau. / *Quote for cutting the 3 cemeteries for 2019/20 was unanimously accepted. Clerk to finalise the conditions relating to clearing the cuttings.*

5.9 Arwyddion - ymatebodd y Cyngor Sir drwy ddweud y bydd yr arwyddion yn cael eu codi yn y flwyddyn ariannol newydd / *Signs - The County Council responded that the signs will be erected in the new financial year*

6. Adroddiad gan y Cynghorwr Sir / Report by the County Councillor

- Esboniodd y sefyllfa ynglŷn â Dawnus, y prif contractwr ar gyfer cynllun Lliniaru Llifogydd Biwmares ac efallai y disgwylir i gwmni arall gymryd y gwaith drosodd / *Explained the situation regarding Dawnus, the main contractor for the Beaumaris Flood Alleviation scheme and that possibly another company is expected to take over the work*
- Cyng. C Jones wedi adrodd y twll yn y ffordd wrth y troiad i'r Hen ysgol / *Clr. C Jones has reported the hole in the road by the turning to the Old School*

7. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

- 7.1 Cais cynllunio Gwelfryn – wedi ei wrthod gan yr Arolygiaeth Cynllunio / *Gwelfryn planning application - has been turned down by the Planning Inspectorate*
- 7.2 Trafodwyd cais 22C238D – garej Cherry Tree Cottage, yn llawer mwy na hyn sydd ar y cynllun / *Discussed planning application 22C238D - garage at Cherry Tree Cottage, appears to be much bigger than what is on the plan*

8. Hen Ysgol / Old School

- 8.1 Cyng. R Hughes - bod y contractwyr dal ar y safle ac yn gobeithio gorffen tua diwedd y mis. / *Clr. R Hughes - the contractors still on site and hoping to finish towards the end of this month.*
- 8.2 Oherwydd y ddarpariaeth wael o gyflenwad trydan i'r Ysgol, amcangyfrifir y bydd yn costio tua £11.5k i gyrraedd y safon / *Due to the poor provision of electricity supply to the school, it is estimated to cost £11.5k to bring it up to standard*
- 8.3 Mae ceisiadau grant eraill yn cael eu hadolygu / *Other grant applications under review*

9. Tir Comin / Common Land

- 9.1 Hawddfraint ar gyfer peipen ddŵr ar draws tir comin i Tyddyn Ben - derbyniwyd cais gan Mr E Williams am yr hawddfraint, lle esboniodd amodau Dwr Cymru cyn cysylltu â'r prif gyflenwad. / *Easement for Water Pipe across common land to Tyddyn Ben - Clerk received a request from Mr E Williams regarding the easement where he explained Welsh Water conditions prior to connection to the mains.*

10. Cyfrifon a Praesept / Accounts & Precept

- 10.1 Anfonebau i'w hystyried / *Invoices to be considered:-*
 - Aelodaeth Un Llais Cymru / *One Voice Wales - £113.00*
 - Gwaith Awdit 2017/18 / *Internal Audit work 2017/18 - £75.00*
 - Cyflog / Wages - £396.82
 - HMRC - £90.00

11. Heddlu / Police

PCSO Carywn Gilford yn bresennol i drafod materion lleol. Gwnaeth awgrymiadau i ddiogelu'r ardal o amgylch yr Hen Ysgol.

Dywedodd Cyng. B Williams, yn dilyn cyfarfod diweddaraf Fforwm Cyswllt y Cyngor Sir, teimlwyd yn gyffredinol fod presenoldeb yr Heddlu wedi gostwng yn sylweddol yn yr ardal / *was in attendance to discuss local matters. Made suggestions to safeguard the area around the Old School.*

Clr. B Williams reported that following the latest Council Liason Forum meeting, it was generally felt that Police presence has fallen dramatically in the area.

12. Gohebiaeth / Correspondence

- Albert Owen – lôn Hafoty / *Hafoty road*
- E Madine – cynnal a chadw mynwentydd / *maintaining cemeteries*
- Apêl Ambiwlans Awyr / *Appeal Air Ambulance*
- Apêl Gofalwyr / *Appeal Carers*

13. UFA/AOB:

- 13.1 Cododd Cyng. R Hughes bryder am y llanast ar dir comin y Rhos lle mae'r bysiau lleol yn troi / *Clr. R Hughes raised concern about the mess on the Common Land of the Rhos where the local buses turn around.*
- 13.2 Mae'r Clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth i Mr M Parry yn ymateb i benderfyniad cynnig BIBC i ganoli darpariaeth fasnolaidd brys i Ysbyty Glan Clwyd / *Clerk has sent a letter of support Mr. M Parry in response to the decision by BCUHB proposal in centralising emergency vascular provision to Ysbyty Glan Clwyd*

13.3 Wedi derbyn hysbysiad gan SP Energy Networks y byddant yn uwchraddio ac adnewyddu llinellau uwchben presennol o gwmpas Llanddona. Mae grantwr wedi gwrthod rhoi caniatâd i'r gwaith adnewyddu oherwydd bod gwaith datblygiad ar dir ger Jalna, ac mae SP Energy yn cynnig dewis arall. Penderfynwyd trefnu ymweliad safle gyda nhw i drafod yr opsiwn / *Received notification by SP Energy Networks that they are will be upgrading and refurbishing existing overhead lines around Llanddona. A grantor has refused to consent to the refurbishment works due to development on land by Jalna, and SP Energy are offering an alternative option. It was decided to arrange a site visit with them to discuss the option.*

13.4 Trafodwyd y llythyr gan berchennog Bodlondeb ynglŷn â'r garreg ger yr eiddo / *Discussed the letter from the owner of Bodlondeb regarding the stone near the property*

13.4 Cyng. B Williams - tynnodd sylw at y prif ganlyniad o gyfarfod diweddar o'r Fforwm Cyswllt mewn perthynas ag adroddiad blynyddol IRPW, gan ei bod yn orfodol i Gynghorau Tref a Chymuned drefnu bod taliad.

a) o £150 y flwyddyn ar gael i bob aelod am gostau a godwyd

b) a darparu ad-daliad am gostau gofal i alluogi'r person hwnnw i gyflawni ei rôl

Clr. B Williams highlighted the main outcome from the recent Liaison Forum meeting in relation to the IRPW annual report, in that it is mandatory for Town & Community Councils to make available

a) a payment of £150 per year to each member for costs incurred

b) and provide reimbursement for costs of care to enable that person to carry out their role.

14. Dyddiad cyfarfod nesaf / Date of next meeting:

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i derfyn am 9:25 o'r gloch. Cyfarfod nesaf ar 17/04/19 am 7.30 yn Capel Peniel.

There was no further business to discuss. Meeting came to a close at 9:25pm. Next meeting to be held on 17/04/19 at 7.30pm in Peniel Chapel.

Llofnod y Gadeirydd

Dyddiad